Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

Gofynwch am:
Ffôn:
E-Bost:
Ein Cyf:
Eich Cyf:
Dyddiad: 1 Medi 2021

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Wrth i ni gychwyn ar flwyddyn academaidd newydd, roeddwn i eisiau ysgrifennu atoch chi i gyd i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer disgyblion ar draws ein holl ysgolion a lleoliadau. Ers 7 Awst 2021, mae Cymru wedi bod ar Lefel Rhybudd Sero. O ganlyniad, mae'r polisi cyfredol yn caniatáu i gysylltiadau achosion a gadarnhawyd o COVID-19 gael eu heithrio rhag hunan ynysu os nad ydynt yn dangos symptomau ac wedi'u brechu'n llawn (o leiaf 14 diwrnod yn ôl) neu o dan 18 oed. RHAID i'r rhai sydd â symptomau / prawf positif ynysu ar unwaith.

Rydym nawr yn gweithio gyda'n holl ysgolion a lleoliadau i:

- alluogi ysgolion i weithredu ar sail 'busnes fel arfer' cyn belled ag y bo'n bosibl
- sicrhau'r deilliannau gorau i bob dysgwr drwy ystyried ei anghenion addysgol a'i les
- rheoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl fel sy'n cael ei wneud ar gyfer heintiau eraill, a sicrhau bod y camau gweithredu i'w cymryd pe bai achos yn cael ei nodi mewn ysgol neu goleg yn glir.

Er mwyn ein cefnogi gyda hyn, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi Fframweithiau Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion a cholegau. Bydd hyn yn helpu ysgolion i deilwra eu trefniadau i adlewyrchu risgiau ac amgylchiadau lleol.

Pan fydd disgyblion yn dychwelyd bydd y trefniadau i raddau helaeth yr un fath ag yr oeddent cyn gwyliau'r haf ond bydd y newidiadau canlynol, fel yr argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu gweithredu ar draws ein hysgolion cyn gynted â phosibl ac fan bellaf erbyn 20 Medi. Bydd eich ysgol yn rhoi gwybod i chi am y newidiadau:

- Ni fydd yn ofynnol bod masgiau wyneb yn cael eu gwisgo gan ddisgyblion mewn ysgolion, ond mae'n ofynnol eu gwisgo ar gludiant ysgol ar gyfer disgyblion oed uwchradd
- Ni fydd unrhyw ofyniad am swigod cyswllt mewn ysgolion
- Ni fydd angen amseroedd cychwyn a gorffen cyfnodol
- Bydd y gwaith o lanhau ardaloedd cyswllt uchel yn amlach yn parhau tan y Nadolig

Trwy gydol y pandemig mae ein holl ysgolion wedi gweithio'n eithriadol o galed i wneud eu hadeiladau mor ddiogel â phosibl mewn amgylchiadau anodd a newidiol iawn. Ar hyn o bryd mae gan Abertawe'r gyfradd uchaf o achosion cadarnhaol o'i chymharu ag unrhyw le arall yng Nghymru sy'n dangos nad yw Covid wedi diflannu.

Mae angen i ni i gyd chwarae ein rhan wrth helpu ysgolion i aros yn ddiogel a lleihau unrhyw aflonyddu. Mae awyr iach yn bwysig yn y frwydr yn erbyn y firws, felly os ydych chi allan yn cymdeithasu, ystyriwch gwrdd yn yr awyr agored os gallwch chi.

Parhewch i annog eich plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd a chofiwch, er bod y rheolau wedi ymlacio, bod ganddyn nhw ddewis personol o hyd i wisgo gorchudd wyneb os ydyn nhw eisiau.

Mae brechu yn hynod bwysig ac mae sesiynau brechu galw heibio yn cael eu cynnal yn rheolaidd ym Mae Abertawe i unrhyw un dros 16 oed.

Fel bob amser, byddwn yn parhau i weithio gyda'n hysgolion i sicrhau eich bod chi a'ch plant yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch pan ddychwelwn i'r ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg

Cyngor Abertawe
Swansea Council

Education Directorate
Civic Centre, Oystermouth Road,
Swansea, SA1 3SN
www.swansea.gov.uk

Please ask for:
Direct Line:
E-Mail:
Our Ref:
Your Ref:
Date: 1 September 2021

Dear Parents/Carers

As we embark on a new academic year, I wanted to write to you all to confirm the arrangements for pupils across all our schools and settings. Since 7 August 2021, Wales has been at Alert Level Zero. As a result, the current policy allows contacts of confirmed cases of COVID-19 to be exempt from isolation if they are asymptomatic and double vaccinated (at least 14 days ago) or under the age of 18. Those who have symptoms/test positive MUST continue to isolate immediately.

We are now working with all our schools and settings to:

- enable education to operate as 'business as usual' as far as possible
- secure the best outcomes for all learners by considering both their educational needs and wellbeing
- manage the ongoing risks of COVID-19 as safely as possible as for other infections, and ensure clarity of actions required if there is a case in a school or college

To support us with this, the Welsh Government has now published local COVID-19 Infection Control Decision Frameworks for schools and colleges. This will help schools to tailor their arrangements to reflect local risks and circumstances.

When pupils return arrangements will largely be the same as they were before the summer holidays but the following changes, as recommended by the Welsh Government, will be implemented across our schools as soon as possible and at the latest by 20 September. Your school will let you know of the changes:

- There will not be a requirement for face masks to be worn by pupils in schools, but they are required to be worn on school transport for secondary aged pupils
- There will be no requirement for contact bubbles in schools
- There will be no need for staggered start and finish times
- The additional cleaning of high contact areas will continue until Christmas

To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Throughout the pandemic all our schools have worked exceptionally hard to make their premises as safe as possible in very difficult and changing circumstances. At present Swansea has the highest rate of positive cases compared to anywhere else in Wales which shows Covid has not gone away.

We all need to play our part in helping schools to remain safe and minimise disruption. Fresh air is important in the fight against the virus, so if you are out socialising, please consider meeting outdoors if you can.

Please continue to encourage your children to wash their hands regularly and remember that even though the rules have relaxed, they still have a personal choice to wear a face-covering if they want to.

Vaccination is extremely important and drop-in vaccination sessions are running regularly in Swansea Bay for anyone over the age of 16.

As always, we will continue to work with our schools to ensure that you and your children get the support that you need as we return to school.

Thank you for your continued support.

Yours sincerely

Helen Morgan-Rees
Director of Education